

## ❖ DEWCH I WELD Y MAN LLE Y BU'N GORWEDD

**Gweddi Agoriadol:** Ar yr adeg arbennig hon o'r flwyddyn Arglwydd, gad i ni gofio mai trwy dy dlodi Di y daethom ni ac y deawn ni yn gyfoethog. Diolch am dy aberth a'th rodd i ni, Iesu Grist ei hun. Amen.

**Emyn:** *Caneuon Ffydd* 365, 'Caed baban bach mewn preseb'

**Darllen:** Luc 2:1–21

**Emyn:** *Caneuon Ffydd* 453, 'O ddirgelwch mawr duwioldeb'

**Gweddi:** Diolch i Ti Arglwydd y bydysawd, gwneuthurwr y cyfan oll, am i Ti ddod i'n plith. Diolch i Ti fod gennym ni Archoffeiriad mawr, un a gafodd ei demtio ym mhob peth yr un ffunud â ni, ac eto heb bechu. Oherwydd Iesu, mae i ni hawl i'r nef. Oherwydd ei fod wedi dod yma yn y cnawd, mae'n deall ein cyflwr ac yn gallu cydymdeimlo â ni yn ein gofidiau a'n holl brofiadau a themtasiynau. Diolch i Ti ein bod ni'n dilyn gwardwr byw ac nid Crist plastig mewn crud artiffisial. Diolch i Ti fod grym yr efengyl yn parhau ac yn cryfhau, hyd yn oed yn y byd tywyll hwn rydym ni'n byw ynddo. Arwain ni i gyd yn ein heglwysi eleni at y preseb, a thrwyddo gad i ni weld goruchafiaeth y Groes a'r bedd gwag. Yn enw yr un a'n carodd, a ddaeth i lawr atom ac a roddodd ei fywyd yn aberth yn ein lle, Iesu Grist y Cyfiawn. Amen.

**Emyn:** *Caneuon Ffydd* 446, 'Rhyfedd, rhyfedd gan angylion'

**Myfyrdod:**

Mathew 28:6 – yr ail gymal – ...dewch i weld y man lle y bu'n gorwedd...

Un o'r pethau oedd bob amser yn goglais fy meddwl pan oeddwn yn blentyn oedd sut un tybed oedd Duw – o ran golwg rydw i'n ei feddwl. Yn fy nychymyg fe allwn ei weld fel hen ŵr barfog, gwyn ei wallt, rhyw groesiad rhwng fersiwn dychymygol o Siôn Corn fy mhentyndod a'r lluniau roeddwn i wedi eu gweld o Iesu gyda'i wallt hir golau a'i farf a'i fwstach i fatsio. Ychydig yn wynnach wrth gwrs, ychydig yn hirach hefyd wrth gwrs, ond yn sylfaenol yr un wyneb oherwydd i bob tebygrwydd teuluol ddechrau yn y tragwyddoldeb diderfyn, siŵr o fod. Beth bynnag, fe fyddwn i'n meddwl wedyn, beth mae Duw yn ei wneud i fyny fan'na yn y nefoedd trwy'r amser? Cerdded o gwmpas cymylau? Hedfan o un fan i'r llall fel y mae ar nenfwd y *Sistine Chapel*, yn llawn o rym ysgubol? Eistedd weithiau i gael sbel, siŵr o fod. Ond feddyliais i erioed am Dduw yn gorwedd. Eto i gyd, yn adnod y testun mae sôn bod Duw, ym mherson ei Fab, wedi cael *lie down*. Mae sôn bod Iesu wedi cerdded, eistedd, teithio ar gefn asyn, cario pethau, siarad a dadlau, penlinio, crio, colli ei dymer yn rhacs a gwneud pentwr o bethau dynol, yn union fel ni, ond dim ond dwywaith (os cofiaf yn gywir) y mae sôn iddo orwedd. Cafodd ei roi i orwedd mewn preseb ym Methlehem ar ddechrau ei daith ddaearol gan ei fam, a fan hyn roedd wedi cael ei roi i orwedd ym medd Joseff o Arimathea. Ond erbyn inni gyrraedd adnod y testun, mae hi'n fore'r trydydd dydd, bore'r atgyfodiad a dyw E ddim yno mwyach.

Dewisiad od o adnod fel testun, meddech chi. Wel, ydy a nacydy. Gofiwch chi hen garolau'r plygain gynt a gwaith Morgan Rhys? Mae'r hen emynwyr i gyd yn gweld heibio i Fethlehem yn union at Galfaria. Trwy ffenest gefn y stabal mae modd cael cip ar Golgotha ar y gorwel. Yr hyn sy'n gwneud y Nadolig yn bwysig dros ben i'r Cristion yw'r Pasg bob tro. Y Nadolig yw'r ŵyl i ni i gyd bellach, ac mae tiliau M&S, Tesco ac Asda yn clodfori'r sbri flynyddol enfawr sy'n dod heibio. Ond trwy edrych ar y geni ar ôl gwybod beth sy'n mynd i ddod ar yr ŵyl fwyaf un, y Pasg, mae materoliaeth ein canrif newydd yn pylu'n ddim. Fe ddaeth y baban arbennig yma o'r gogoniant, fe'i gwaghaodd ei hun, fe gymerodd agwedd gwas i un pwrpas, ac un yn unig. Nid i fod yn achlysur o fwyta mins peis a stwffio twrcïod. Nid i wella economi gwledydd y Gorllewin a sicrhau na fydd dirwasgiad am sbel fach eto. Nid hyd yn oed i fod yn addurno coed a thai a drysau ac ysgrifennu llythyrau maith at Santa. Na, fe ddaeth yn dlawd er mwyn ein hachub ni o farwolaeth i fywyd.

Does dim pwrpas i'r preseb plastig a'r olygfa dan eira o'r teulu bach yn y stabal ddrafftio os nad yw Iesu yn cael lle yn ein calonnau ni bobl eglwysi Cymru. Allwch chi ddim disgwyl i'r byd tu allan gredu dim ond mewn bwyta ac yfed a gwario. Ond ni Gristnogion? Fe ddylem ni ystyried yn ddwys oblygiadau yr enedigaeth ryfeddol hon unwaith eto eleni. Dewch i weld ble roedd yn gorwedd, meddai'r angylion wrth

y gwagedd ofnus. Nid preseb sydd yma ond bedd gwag. Canolbwynt neges cariad Duw, y Duw na allwn ei ddychmygu'n gywir neb ohonom ni, yw bod Duw yn ein caru, ac wedi ein caru ddigon i anfon Iesu i'n hachub. Anodd tynnu dyn oddi ar ei dylwyth, meddai'r hen ddihareb, ac mae Iesu'n fab ei dad. Mae blas y cyw yn y cawl. Mae'n ein **caru**. Dyna'r gwir syml! Dyna'r ateb hefyd wrth gwrs i gwestiynau dychymyg fy mhлentyndod. Hedfan? Eistedd ambell dro? Symud gan fflitian o gwmwl i gwmwl? Efallai wir, ond yr hyn mae Duw yn ei wneud trwy'r amser yn y nefoedd yw ein **CARU NI!** Haleliwia!

**Emyn:** *Caneuon Ffydd* 439, 'Peraidd ganodd sêr y bore'

**Y Fendith**